

Amodau archebu lle a pholisi ad-dalu Caban

Mae'r amodau archebu lle hyn yn berthnasol i'r holl archebion oni bai y nodir yn wahanol.

Mae "Caban" yn golygu'r ardal o'r enw Caban, Pentywyn

Mae "ystafelloedd" yn golygu'r ystafelloedd yn Caban, Pentywyn

Mae "Y Cyngor" yn golygu Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae "telerau" yn golygu'r Rheolau a'r Rheoliadau a'r Amodau Archebu Lle

Mae'r term "cwsmeriaid" yn golygu pawb sy'n aros ac yn ymweld

Mae'r term "Deiliad y Cytundeb" yn golygu'r person/au sydd wedi archebu lle

Cytundeb Contractiol

Drwy archebu lle, byddwch yn gyfrifol am wneud yr holl daliadau sy'n ddyledus fel rhan o'r archeb.

Mae'r unigolyn sy'n archebu'r lle yn gyfrifol am ymddygiad ei grŵp a bydd ei ymwelwyr yn rhwym i'r Amodau Archebu Lle a'r Rheolau a'r Rheoliadau.

Caiff pob ystafell ei neilltuo ar gyfer y cyfnod a archebir yn unig ac ni fydd unrhyw hawl i ddeiliadaeth y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Telerau Talu

- Mae angen y Taliad Llawn wrth archebu.

Rhaid i ddeiliaid y cytundeb beidio â gwerthu, neilltuo neu is-osod eu hystafell.

Mae'r safle at ddefnydd personol yn unig a bydd unrhyw un sy'n defnyddio Caban at unrhyw ddefnydd arall heblaw at ddefnydd hamdden personol yn fforffedu ei archeb yn awtomatig.

Mae'r holl gyfraddau a ddyfynnir yn cynnwys TAW ar y cyfraddau sy'n bodoli ar y pryd.

Nid yw'r archebion yn cynnwys mynediad i unrhyw ddigwyddiadau sydd yn gofyn am docynnau neu atyniadau ychwanegol.

Canslo/Ad-daliadau

I gael eich ystyried ar gyfer ad-daliad, mae'n rhaid i'r sawl a archebodd y lle yn wreiddiol anfon cais i ganslo'r lle mewn neges e-bost at [infocaban@Carmarthenshire.gov.uk](mailto:infocaban@ Carmarthenshire.gov.uk). Rhaid gwneud y cais fwy na 72 awr cyn yr amser yr ydych i fod i gyrraedd (3pm fyddai'r amser cyrraedd). Bydd ffi weinyddol o 10% yn cael ei didynnu cyn rhoi ad-daliad; ein nod yw rhoi ad-daliadau cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl y cais.

Gellir rhoi ad-daliadau'n unig i'r cerdyn a ddefnyddiwyd i wneud y taliad.

Cynghorir cwsmeriaid i drefnu yswiriant i'w diogelu yn achos canslo.

Ni fydd unrhyw ad-daliadau neu ostyngiad o ran ffioedd os na fydd cyfleusterau/atyniadau ar gael yn ystod eich arhosiad.

Ni fydd methu â chyrraedd am unrhyw reswm yn unol â'r Amodau Archebu Lle hyn yn rhoi hawl ichi gael ad-daliad.

Tywydd gwlyb a rhesymau eraill dros ganslo

Ni fydd unrhyw ad-daliadau'n cael eu rhoi oherwydd amodau tywydd sy'n arwain at fethu â defnyddio'r cyfleusterau. Nac ychwaith am ffactorau amgylcheddol eraill sydd allan o'n rheolaeth.

Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu gyfyngu ar archebu lleoedd ar unrhyw adeg heb rybudd. Os bydd hyn yn digwydd, byddai ad-daliad pro rata yn cael ei roi ar gyfer y dyddiadau dan sylw; fodd bynnag, ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy o dan unrhyw amgylchiadau.

Materion Cyfreithiol

Difrod i'r Safle

Bydd unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn difenwi neu'n achosi difrod i unrhyw adeiladau, offer neu eiddo ar y safle yn cael ei droi allan a'i erlyn ar unwaith. Deiliad y cytundeb fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod / toriadau / colled a achosir ganddo ef ei hun neu ei ymwelwyr i'r ystafell neu i unrhyw rai o'r cyfleusterau neu i eiddo cwsmeriaid eraill, a chodir tâl arno.

Bydd yr holl gostau'n cael eu codi ar ddeiliad y cytundeb.

Pan fo eiddo cwsmeriaid eraill yn cael ei ddifrodi, bydd deiliad y cytundeb yn gyfrifol am dalu'r gost honno yn uniongyrchol i'r cwsmer arall.

Colled, Difrod ac Anaf

Gadewir eich cerbydau, eu hategolion a'u cynnwys ar eich menter eich hun. Ni fydd y Cyngor, ei staff na'i asiantau yn atebol am golled neu ladrad unrhyw eiddo, na difrod iddo, tra bydd yn Caban, nac am unrhyw anaf, damwain neu anffawd i unrhyw unigolyn ar y safle, oni bai yr achoswyd neu y cyfrannwyd at hynny gan unrhyw esgeulustod neu ddifffyg ar ran y Cyngor neu ei weithwyr. Mae'n rhaid i ddeiliaid y cytundeb sicrhau bod eu heiddo'n ddiogel ac wedi'i yswirio'n llawn rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl.

Rheolau a Rheoliadau

Rydym am i bawb gael arhosiad diogel a phleserus yn Caban a gofynnwn i'n holl gwsmeriaid ddilyn y rheolau a'r rheoliadau hyn.

Mae'r Rheolau a'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i westeion sy'n aros ac ymwelwyr dydd.

Eich cyfrifoldebau

Deiliad y cytundeb sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob aelod o'i grŵp, gan gynnwys unrhyw ymwelwyr, anifeiliaid anwes neu blant, yn cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau.

Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o'ch grŵp yn gyfarwydd â'r rheolau safle hyn.

Methu â chydymffurfio â'r rheolau

Bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau yn arwain at gymryd camau priodol, a allai gynnwys:

A. Rhybudd llafar gan staff y Cyngor.

- B. Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i adael y safle.
- C. Gwrthod archebion yn y dyfodol.
- D. Cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Heddlu.

Bydd y camau a gymerir yn adlewyrchu natur a difrifoldeb digwyddiad ac mae'n bosibl na fyddant yn dilyn y drefn a nodir uchod.

Ni fydd unrhyw un y gofynnir iddo adael **yn cael iawndal nac ad-daliad**.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un sydd wedi torri rheolau a rheoliadau'r Safle, wedi torri is-ddeddfau lleol, wedi cael cais i adael y safle'n flaenorol neu wedi cael ei wrthod rhag dod i mewn i'r safle'n flaenorol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd unigolion rhag defnyddio Caban yn y dyfodol os yw cwsmer neu aelod o'r grŵp wedi torri'r rheolau a'r rheoliadau, neu wedi peryglu llesiant a diogelwch cwsmeriaid eraill a'i staff.

Os bydd unrhyw gwsmer yn cyflawni unrhyw drosedd neu gamymddygiad yn Caban, yna mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd y person hwnnw o'r safle neu ganslo'r cytundeb i feddiannu'r safle. Bydd darpariaethau'r cymal hwn hefyd yn berthnasol lle na chyflawnir trosedd ond lle mae gweithgareddau fel achosi niwsans, aflonyddu domestig neu dwrw ac ati.

Mae'n rhaid talu am unrhyw ddifrod yn llawn cyn gadael y safle.

Mae Caban yn cadw'r hawl i wrthod neu ganslo archebion a wnaed ac arosiadau sy'n mynd rhagddynt gan y rhai sydd wedi torri'r telerau a'r amodau hyn (a fydd yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd o bosib) yn y gorffennol, p'un a yw'r archeb yn yr enw hwnnw ai peidio.

Cael Mynediad i Caban

Y côd post ar gyfer Caban Pentywyn yw SA33 4NY. Mae Caban wedi ei leoli'n uniongyrchol o'ch blaen pan fyddwch yn dod i mewn i'r maes parcio. Mae maes parcio gwsteion Caban ar y chwith wrth i chi yrru i mewn a bydd rhwystr ar wahân i chi yrru trwyddo. Wrth archebu lle byddech wedi nodi rhif eich cerbyd ac rydym yn defnyddio hwn i awdurdodi eich parcio. Ewch i mewn i'r maes parcio hwn a pharcio cyn cofrestru. Cewch barcio o 12pm ar eich diwrnod cyrraedd a rhaid i chi adael erbyn 5pm ar y diwrnod gadael.

Mae'n rhaid gadael yr ystafelloedd erbyn 12pm ar y diwrnod gadael. Gall methu â gadael eich ystafell erbyn yr amser hwn arwain at dâl am adael yn hwyr, sef tâl o hyd at un noson ychwanegol yn y llety.

Cofrestru i fynd i mewn i ystafelloedd

Bydd modd mynd i mewn i'ch ystafell o 3pm ymlaen; gellir casglu cardiau allwedd o ddesg y dderbynfa yn y brif fynedfa.

Rhaid gadael erbyn 10am.

Eich ystafell

Defnyddio'r Ystafell

Mae'n rhaid i'r ystafell gael ei defnyddio yn unol â'r rheolau a'r rheoliadau hyn.

Dim ond un cerbyd a ganiateir ar gyfer pob ystafell a bydd rhaid talu am unrhyw gerbyd ychwanegol yn y prif faes parcio.

Caniateir hyd at bedwar o bobl ym mhob ystafell, yn ddibynnol ar eich math o ystafell.

- Gwely dwbl = 2 o bobl
- Pâr o welyau = 2 o bobl
- Teulu = 4 o bobl
- Gwely dwbl a gwely sengl = 3 o bobl

Yr unig eithriad i'r uchod yw os gofynnir am got teithio, ond rhaid datgan hyn wrth archebu.

Ni chaiff neb o dan 18 oed ddefnyddio ystafell heb oedolyn.

Gwaherddir reidio beiciau modur, sgwteri trydan, gwibgartiau trydan a beiciau cwad oddi ar y ffordd yn llwyr o fewn ffiniau'r safle.

Os bydd tân yn Caban, mewn ystafell neu yn yr ardaloedd cyfagos

Gwnewch yn siŵr fod pawb yn gadael y safle

- Seiniwch y larwm
- Ffoniwch y frigâd dân (999) o'r ffôn agosaf neu gan ddefnyddio ffôn symudol
- Gwrandewch ar yr holl gyfarwyddiadau gan aelodau staff a'u dilyn

Dylai defnyddwyr y safle ymgynnull yn y man ymgynnull dynodedig agosaf.

Dilynwch y Gweithdrefnau Tân a arddangosir o amgylch y cyfleuster.

Os bydd Caban yn cael ei wacáu, mae'n rhaid ichi ddilyn cyfarwyddiadau staff y Cyngor.

Rhoi gwybod am ddamweiniau ac argyfyngau

Rhowch wybod i staff y dderbynfa am unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau ar unwaith fel y gellir eu cofnodi a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Mewn argyfwng, neu os bydd tân, neu argyfwng meddygol, ffoniwch 999

Anifeiliaid Anwes

Mae croeso i gŵn, ond mae'r amodau canlynol yn berthnasol: -

Mae'n rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser yn Caban ac ar y safle; rhaid iddynt fynd i mewn i'r ardaloedd a ganiateir, o amgylch ardal y bwyty ac yn ardal y parc yn unig.

Rhaid peidio â gadael cŵn heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg.

Rhaid peidio â gadael cŵn heb oruchwyliaeth mewn unrhyw ystafell sy'n croesawu cŵn.

Rhaid peidio â gadael cŵn heb oruchwyliaeth mewn cerbydau.

Mae'n rhaid i berchenogion cŵn sicrhau nad yw eu hanifeiliaid anwes yn aflonyddu ar ddefnyddwyr eraill y safle.

Dim ond mewn ystafelloedd dynodedig sy'n croesawu cŵn y caniateir cŵn.

Mae'n rhaid i faw damweiniol neu fel arall gael ei glirio ar unwaith a'i roi yn y biniau gwastraff cyffredinol a ddarperir.

Os bydd ci'n cnoi unigolyn neu anifail arall, rhoddir gwybod i'r awdurdod priodol ac ymchwilir i'r mater yn unol â hynny.

Ni chaniateir cŵn yn ardaloedd chwarae'r plant.

Dim mwy na 2 o gŵn fesul ystafell a chodir tâl am hyn.

Ni chaniateir cŵn a ystyrir yn beryglus e.e. Daeargi Pydew (Pit Bull Terrier); Tosa Japaneaidd; Dogo Argentino; Fila Brazilera.

Rheolau a Rheoliadau Eraill

Sŵn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae Caban yn lle sy'n addas i'r teulu ac nid ydym yn caniatáu archebion grŵp mawr.

Ni chaniateir cerddoriaeth uchel ar unrhyw adeg.

Cofiwch fod ymwelwyr eraill yma i fwynhau eu harhosiad, felly dim iaith ddrwg gan neb. Os gwneir cwynion gan gwsmeriaid eraill bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i hyn.

Gweithgareddau Hamdden

Mae nifer o gyfleusterau ar y safle fel y traeth a'r ardaloedd chwarae am ddim i'w defnyddio.

Plant

Nodwch fod yn rhaid i bob plentyn gael ei oruchwylio bob amser gan oedolyn.

Ni ddylid gadael plant mewn ystafelloedd heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg.

Cyffredinol

Rydym yn cadw'r hawl i wneud y canlynol:

- newid yr ystafell a roddir i chi a/neu eich lleoliad yn y gwesty ar unrhyw adeg yn ystod eich arhosiad am unrhyw reswm; neu
- canslo unrhyw archeb(ion) oherwydd pryderon iechyd a diogelwch neu gau'r gwesty yn llawn neu'n rhannol. Os bydd yn rhaid i ni ganslo'ch archeb(ion) byddwn yn ceisio eich hysbysu a bydd ad-daliad llawn yn cael ei brosesu i'r un cerdyn debyd/credyd, er y gallai gymryd ychydig ddyddiau i'r arian gyrraedd eich cyfrif.

Eich gwybodaeth

Rydym yn cadw eich data personol yn ddiogel. Mae manylion llawn am sut rydym yn defnyddio eich data wedi eu nodi yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Ni chaniateir i bobl o dan 18 oed aros mewn ystafelloedd heb oedolyn yn bresennol.

Ni chaniateir i bobl o dan 18 oed archebu arhosiad yn Caban.

Y contract

Mae'r contract hwn, sy'n cael ei lunio pan fyddwn yn cadarnhau eich archeb, rhyngoch chi a ni. Ni fydd gan unrhyw berson arall unrhyw hawliau i orfodi unrhyw un o'i delerau, boed o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 neu fel arall.

Cedwir pob hawl na roddwyd yn benodol yn y telerau a'r amodau hyn.

Cysylltu â ni

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n gwefan neu'r telerau a'r amodau hyn, llenwch ein ffurflen cysylltu â ni.